# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

10/12/2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 3.30 pm i drafod y materion canlynol:**

1. **Gweddi**
2. **Ymddiheuriadau**
3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2021 ac ystyried unrhyw fater sy'n codi o'r cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 4)**
4. **Diweddariad ar lefydd gwag Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Ceredigion**
5. **Diweddariad ar Ganllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
6. **Gosod y ddogfen 'Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yn ei chyd-destun**
7. **Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Ceredigion**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL CEREDIGION** a gynhaliwyd dros fidio-gynadledda ar **Ddydd Gwener, 18 Mehefin 2021**

**YN BRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorydd Keith Evans a Lynford Thomas

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan (Undeb Bedyddwyr Cymru), Y Parchedig Aled Jones, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Yr Athro John Tudno-Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

Aelodau Cyfetholedig: Yr Athro Catrin Williams

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd: Mr Eirwyn Griffiths

Hefyd Yn Bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(1:15pm-2:25pm)

**1. Gweddi**
Dechreuwyd y cyfarfod drwy weddi gan yr Athro John Tudno Williams.

Yn absenoldeb y Cadeirydd bu i'r Athro John Tudno Williams gadeirio'r cyfarfod ar y cychwyn.

Bu i'r Cadeirydd fynegi cydymdeimladau'r pwyllgor â'r Athro Catrin Williams ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

**2. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE, Y Parchedig Mark Ansell a'r Parchedig Wyn Thomas am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2021 ac ystyried unrhyw fater sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2021.

**Materion yn codi**
Cofnod 6 (b) Aelodaeth o'r Pwyllgor - Bu i'r Cadeirydd groesawu Anna Uruska fel cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig i'w chyfarfod cyntaf.

Roedd y Parchedig Wyn Thomas hefyd wedi derbyn y gwahoddiad i ymuno â'r pwyllgor, fodd bynnag nid oedd yn bosib iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn a bu i'r clerc ymddiheuro iddo dderbyn yr agenda'n hwyr.

**5. Ystyried y materion canlynol:**

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
Ystyriwyd y ddogfen ymgynghori o ran Canllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn dilyn sylwadau oddi wrth Aelodau cytunwyd y bydd y Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn coladu sylwadau a'u dosbarthu er ystyriaeth Aelodau cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd ynghlwm yn Atodiad 1. .

rve-ffurflen-ymateb
(2) (002).docx

Yn dilyn sylwadau a gyflwynwyd i'r Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion gan Aelodau diwygiwyd yr ymateb caiff ei anfon at Llywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn Atodiad 2.

rve-ffurflen-ymateb
CEREDIGION T.docx

**6. Dyddiad y Cyfarfod nesaf :**
Cytunwyd y dylid trefnu dyddiad y cyfarfod nesaf yn ystod tymor yr hydref.

**7. Unrhyw fater arall**
Dim